I

# PROTOCOL AR GYFER NEILLTUO MATERION I GYFARFOD PREIFAT O'R BWRDD (a Phwyllgor)

## 29 Mai 2025

### Fersiwn 5

**Cyflwyniad**

Yn unol â Rheolau Sefydlog (SOs) Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae'r Bwrdd yn cynnal ei gyfarfodydd Bwrdd ffurfiol yn gyhoeddus. Ym mharagraff 7.5.2, mae'r Rheolau Sefydlog yn darparu’r sail i gyfarfod a thrafod eitemau perthnasol yn breifat. Gelwir hyn weithiau yn 'gyfarfod Preifat o’r Bwrdd'. Sail gyfreithiol yr adran hon o’r Rheolau Sefydlog yw adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960.

Bydd adegau pan fydd agweddau ar fusnes y sefydliad yn cael eu hystyried yn fwy priodol mewn sesiwn breifat; bydd hyn er mwyn osgoi peryglu budd y cyhoedd – hynny yw, i osgoi unrhyw niwed gormodol neu ddylanwad annheg ar y cyhoedd.

Mae'r Protocol hwn yn nodi'r seiliau rhesymegol gwahanol sy'n berthnasol i ddeunydd a ystyrir mewn sesiynau preifat.

**Gwerthoedd a Thryloywder Iechyd Cyhoeddus Cymru**

**Ein gwerthoedd yw ‘cydweithio, gydag ymddiriedaeth a pharch, i wneud gwahaniaeth’.** Mae’r Bwrdd yn gweithredu ar y sail bod tryloywder a bod yn agored wrth wraidd ei ddull llywodraethu a gwneud penderfyniadau; a bod aelodau'r Bwrdd yn trafod popeth yng nghyfarfod Cyhoeddus y Bwrdd oni bai bod rheswm penodol dros beidio â gwneud hynny.

**Ffactorau i'w hystyried wrth neilltuo mater ar gyfer cyfarfod Preifat o’r Bwrdd.**

Wrth benderfynu a ddylid neilltuo mater ar gyfer agenda preifat o’r Bwrdd, mae nifer o ffactorau i’w hystyried, gan gynnwys:

- A yw'r eitem neu ddeunyddiau'n cynnwys data personol;
- A oes sensitifrwydd cyfrinachol neu fasnachol;
- A fyddai’r eitem yn tanseilio hyder y cyhoedd neu’n achosi pryder diangen neu niwed posibl i’r cyhoedd;
- A oes materion enw da i’w hystyried – naill ai i Iechyd Cyhoeddus Cymru neu unigolion, partneriaid neu randdeiliaid eraill;
- A yw'r dogfennau ar ffurf drafft i'w cyhoeddi yn y dyfodol;
- A yw'r eitem yn cynnwys cyngor cyfreithiol, a yw'n gyfreithiol gyfrinachol neu a yw'n destun braint gyfreithiol;
- A allai'r mater fod yn niweidiol i'r ymddygiad at faterion;

- A yw datgelu'r mater yn cael ei atal gan y gyfraith.

Nid yw'r rhestr yn hollgynhwysfawr a'i nod yw rhoi enghreifftiau o ystyriaethau allweddol. Mae'r Bwrdd yn ystyried nifer o bapurau ar ffurf drafft mewn sesiwn breifat, cyn ystyried y fersiwn derfynol mewn cyfarfodydd cyhoeddus.

Defnyddir y categorïau canlynol ar gyfer pob eitem agenda ar Gofnodion Preifat y Bwrdd:

- Sensitif yn Fasnachol – Caffael
- Cyfrinachol – Llywodraethu Gwybodaeth (gan gynnwys data personol)
- Cyfrinachol – Seiberddiogelwch
- Cyfrinachol – Gweithlu
- Â Braint Gyfreithiol
- Crynodeb o Gyfarfodydd Preifat o’r Pwyllgor/Is-grŵp - pwnc cyfrinachol
- Pryder neu niwed gormodol i'r cyhoedd - Diweddariad Diogelu Iechyd
- Adroddiad Drafft – I'w gyhoeddi yn ddiweddarach

**Rheoli cyfarfodydd Preifat y Bwrdd**

Pan ddaw'r Bwrdd at ei gilydd ar gyfer cyfarfodydd ffurfiol, mae agendâu Cyhoeddus y Bwrdd yn nodi'r rhan fwyaf o'r busnes dan sylw. Bydd papurau’r Bwrdd yn cynnwys sail resymegol ffurfiol dros ystyried unrhyw eitem mewn sesiwn breifat. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyhoeddi’r agenda ar gyfer cyfarfodydd Cyhoeddus a Phreifat y Bwrdd ar y wefan.

Mae’n bosibl y bydd adegau pan fydd angen i’r Bwrdd ymgynnull mewn sesiwn breifat, heb rybudd cyhoeddus, i ystyried busnes brys sy’n gysylltiedig â’i rolau cyfreithiol a statudol.

**Penderfyniad i ystyried eitemau mewn sesiwn breifat**

Y Cadeirydd, gyda chefnogaeth y Prif Weithredwr, sy’n gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid trafod mater mewn sesiwn breifat neu gyhoeddus, yn dilyn cyngor gan Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Busnes y Bwrdd a’r Swyddog Gweithredol arweiniol, yn unol â’r Protocol hwn. Gall y Cadeirydd hefyd ofyn am gyngor gan unrhyw aelod arall o staff neu gynghorydd proffesiynol, gan gynnwys y Prif Swyddog Risg, y Swyddog Diogelu Data dynodedig ar gyfer y sefydliad.

**Adrodd ar eitemau a ystyriwyd mewn sesiwn breifat**

Bydd Cadeirydd y Bwrdd yn llunio adroddiad cryno o unrhyw eitemau a

gymerwyd mewn sesiwn breifat ac yn cynnwys hwn ar agenda cyfarfod cyhoeddus nesaf y Bwrdd. Bydd hyn hefyd yn cynnwys unrhyw eitemau a gylchredir i'r Bwrdd y tu allan i gyfarfodydd, gan gynnwys nodiadau briffio a gwybodaeth arall.

## Adolygu'r protocol hwn ac Adborth

Bydd y Bwrdd yn adolygu'r Protocol hwn yn flynyddol, i sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion y sefydliad ac yn parhau i fod yn gyson ag ysbryd y Rheoliadau a'r Rheolau Sefydlog. Bydd Ysgrifennydd y Bwrdd yn cadw cofnod o'r eitemau a ystyriwyd mewn sesiwn breifat ac yn cynhyrchu dadansoddiad i lywio'r adolygiad blynyddol.

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am y Protocol hwn ac rydym yn hapus i ymateb i unrhyw ymholiadau yn ei gylch. Anfonwch e-bost at Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Busnes y Bwrdd ar PHW.Board.Business@wales.nhs.uk